Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch

www.cwlwmbusnescaerdydd.com

Medi 2010

Ein cyfarfod nesaf

30 Medi 2010
Gwesty'r Holiday Inn,
Stryd y Castell,
Caerdydd
Efa Gruffudd, Urdd Gobaith Cymru
6.00 yh am 6.30

Cystadleuaeth newydd i fusnesau De Ddwyrain Cymru

Bydd busnesau bychain yn Ne Ddwyrain Cymru yn cael eu gwobrwyo am eu twf cynaliadwy a'u defnydd o'r iaith Gymraeg, diolch i wobr busnes newydd.

Mae Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch wedi partneri gyda Menter Cymru (Venture Wales) i greu'r wobr. Bydd yr enillydd yn derbyn tlws a gwobr o £1000.

Mae'r wobr ar agor i unrhyw fusnes maint bychain neu ganolig a sefydlwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'n rhaid bod y busnes wedi llwyddo eisoes yn ei faes dewisiedig, ac wedi profi fodganddo'r potensial i dyfu mewn modd cynaliadwyy ac wedi defnyddio'r iaith Gymraeg wrth iddo ddatblygu.

Dywedodd Wyn Mears, ar ran y Cwlwm "Nod y wobr yw dathlu llwyddiannau busnesau bychain. Rydym yn gobeithio darganfod enghreifftiau gwych o sut gall yr iaith Gymraeg fod yn gaffaeliad i dwf a llwyddiant, gan ddefnyddio'r gystadleuaeth fel modd i annog busnesau eraill i ddefnyddio'r iaith yn Ne Dwdyrain Cymru".

Ychwanegodd "Rydym yn dra ddiolchgar i Menter Cymru am eu haelioni wrth noddi'r gystadleuaeth eleni".

VentureWales

Manylion y gystadleuaeth

Disgwylir i'r ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais er mwyn adlewyrchu eu strwythur a'u hamcanion, gan ddangos sut y llwyddwyd i sefydlu'r busnes, a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Medi 30ain 2010. Gwahoddir rhestr fer o gwmniau i ymddangos gerbron panel o feirniaid, a cyhoeddir yr enillydd mewn cyfarfod arbennig o'r Cwlwm ar ddiwedd mis Tachwedd.

Ffurflen gais a manylion pellach ar wefan Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch.

www.cwlwmbusnescaerdydd.com

Amcanion

Nod ac amcan Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch, sef cymdeithas o bobl busnes Caerdydd a'r cyffiniau, yw codi proffil y Gymraeg ym myd busnes yn y Brifddinas a De-Ddwyrain Cymru a rhoi cyfle i Gymry Cymraeg sydd mewn busnes o bob math i gyfarfod ac i drafod materion yn ymwneud â busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd busnes i ymuno â Chwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch. Croesewir aelodau unigol ac y mae telerau arbennig ar gyfer aelodaeth corfforaethol i gwmniau.

Archesgob Cymru yn siarad yn y cinio blynyddol



Byddai canlyniad cadarnhaol mewn refferendwm yn beth da i'r byd busnes meddai Cadeirydd Cymru Yfory, Archesgob Cymru Dr Barry Morgan.

Roedd Dr Morgan yn siarad yng Nghinio Blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch ar nos lau 18 Mawrth yng Nghwesty'r Hilton o flaen 80 o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Dywedodd Dr Morgan, fod Cymru Yfory – corff aml-bleidiol, traws-sector, aml-ffydd –yn credu bod symud ymlaen i gael pwerau deddfu go-iawn yn holl-bwysig i'r gymuned fusnes ac i ddatblygiad economaidd Cymru.

Rydym ni o'r farn yma am bedwar "rheswm," dywedodd.

"I ddechrau, mae modd dylanwadu lawer yn fwy effeithiol ar benderfyniadau llywodraeth pan fydd pawb yn glir ynghylch pwy sy'n penderfynu beth. Mae busnes bob amser, yn hollol briodol, yn pwysleisio'r angen i fod yn effeithlon ac i osgoi gwastraff. Wn i ddim sut y mae cyfiawnhau y gwastraff ar egni, amser ac adnoddau sy ynghlwm wrth y system bresennol.

"Yn ail, mae angen i'r ddadl ynghylch penderfyniadau ar y math o ddatblygu economaidd rydyn ni am ei weld yng Nghymru gael ei chynnal yng Nghymru, mewn awyrgylch democrataidd ac agored. Wrth reswm bydd y drafodaeth ynghylch materion megis polisi ariannol, lefelau a mathau o drethiant ac ati, yn digwydd ar y lefel Brydeinig, ond bydd y ffin rhwng pwerau'r ddwy lefel yn gliriach o lawer.

"Yn drydydd, mae mawr angen cryfhau'r broses o ddatblygu polisi economaidd yng Nghymru. Byddai sefydlu patrwm seneddol o lywodraethu yng Nghymru yn hwb mawr i'r broses yma hefyd.

"Tra pery sefyllfa lle mae'r Cynulliad yn gorfod gofyn caniatâd San Steffan bob tro mae e eisiau deddfu, fe fydd Cymru yn israddol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae hyn yn annerbyniol. O ran y cwestiwn Barnett er engrhaifft, mae'n sicr bod Cymru yn cael cam go ddifrifol o dan y trefniadau presennol, a ddylai fod wedi cael eu diwygio ers blynyddoedd."

Pwyllgor Llywio

Mae Pwyllgor Llywio yn gyfrifol am weithgareddau Cwlwm Busnes:-

David Boobier (Cadeirydd)
Dafydd Hampson-Jones (Is-gadeirydd)
Keith Thomas (Trysorydd)
Blod Jones (Ysgrifennydd Aelodaeth)
Catrin Mears (Cyhoeddusrwydd)
Martin Rhisiart
Wyn Mears